Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

31 Mawrth 2020

Annwyl Shan,

**Cyfarwyddyd Gweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr blaenorol, dyddiedig 11 Chwefror, ac yn sgil Cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 11 Mawrth, rwyf bellach yn gallu rhannu sylwadau'r Pwyllgor â chi.

Nodwn fod y Canghellor wedi cynnwys darpariaeth yn ei gyllideb ar gyfer 2020-21 i gynyddu'r trothwy ar gyfer y symiau y gall unigolion sy'n ennill cyflogau uchel dalu i mewn i'w pensiynau. Gobeithiwn y bydd y ddarpariaeth hon yn golygu nad fydd rhwystr i staff clinigol weithio oriau ychwanegol. Fel y nodais yn fy llythyr blaenorol, bydd y Pwyllgor yn gwneud gwaith dilynol ar yr effeithiau ymarferol ar batrwm sifftiau uwch glinigwyr a goblygiadau ariannol y cyfarwyddyd wrth i ni graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod ymateb staff clinigol ar draws GIG Cymru i'r pandemig COVID-19 yn ffactor ychwanegol sylweddol yn hyn oll, ac un na ellir bod wedi ei ragweld yn rhesymol gan Lywodraeth Cymru ar adeg cyhoeddi'r cyfarwyddyd fis Rhagfyr diwethaf.

Yn fwy cyffredinol, roedd y Pwyllgor yn teimlo bod y weithdrefn wedi gweithio'n dda ar yr achlysur hwn a chroesawodd y cyfle i drafod y Cyfarwyddyd Gweinidogol â chi mewn sesiwn gyhoeddus at ddibenion tryloywder a bod yn agored. Rydym wedi sefydlu deialog adeiladol â Llywodraeth Cymru yn ddiweddar oherwydd eich parodrwydd i rannu gwybodaeth â'r Pwyllgor, ac roedd ein trafodaethau ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn enghraifft o hyn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
0300 200 6565

Gwn fod Clercod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cyfarfod â'ch swyddogion, ynghyd â staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ddiweddar, i drafod gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â Chyfarwyddydau Gweinidogol, gan ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd o'r profiad cyntaf hwn. Deallaf y bydd y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu mewn canllawiau a phrotocol diwygiedig, gan gynnwys adolygiadau priodol i'r gofynion a nodir yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'.

Rwy'n nodi y byddaf yn cael gwybod am unrhyw Gyfarwyddyd Gweinidogol yn y dyfodol, ynghyd â chyngor amserol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Rwy'n croesawu hyn, oherwydd y bydd yn caniatáu i ni, fel Pwyllgor, benderfynu ar y ffordd orau o gydlynu gwaith craffu â'r Cynulliad fesul achos.

Gan amlaf, o gofio cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol yn y dyfodol yn dod atom ni i'w harchwilio ymhellach gyda chi, fel Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru. Unwaith i'r gwaith craffu hwn ddod i ben, byddwn wedyn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod bod y Cyfarwyddyd Gweinidogol wedi'i nodi'n ffurfiol, ynghyd ag unrhyw sylwadau eraill yr ydym o bosibl yn dymuno eu gwneud ar gynnwys/goblygiadau y Cyfarwyddyd Gweinidogol dan sylw. Os yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dewis peidio â thrafod Cyfarwyddyd Gweinidogol penodol yn fanwl, byddwn yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor(au) perthnasol yn y Cynulliad i ofyn iddo wneud hynny yn ein lle.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English